

Cofnodion Is bwyllgor Cyllid 25/11/19

Presennol: Dewi Jones (yn y gadair), Alwyn E Jones, Huw Antur, Bethan Edwards, Lis Puw

Ymddiheuro: Alwyn Roberts

1. Cadarnhawyd Cofnodion Medi 30 2019
2. Manylwyd ar ymateb a chymau gweithredu'n dilyn Adroddiad BDO. Nodwyd pryder BDO am yr arian a gedwir wrth gefn.
 - ❖ Nodwyd fod arian y fynwent yn cael ei gadw mewn cyfrif ar wahân i wariant y Cyngor. Nodwyd y cynilion ar gyfer creu – dros cyfnod o amser – mynwent lawnt.
 - ❖ Nodwyd ei fod yn eglur ar Gyllideb 2018-19 (a chyllidebau blaenorol) fod y Cyngor yn cynilo ar gyfer prosiectau sylweddol, sef
 - uwchraddio'r toiledau (pris a dderbyniwyd yn ddiweddar yw £17,000)
 - creu lle parcio wrth loches bws Tŷ'n Ddôl mewn cydweithrediad a Chyngor Gwynedd
 - cydweithio gyda grŵp cymunedol i greu llain bob tywydd cymunedol (Adran 137)
 - ❖ Nodwyd hefyd ein bod wedi tanwario eleni oherwydd
 - fod y Cyngorwyr wedi gwrthod eu tâl o £150 (yn gwneud cyfanswm o £1650)
 - ni fu llwyddiant yn yr ymdrech i efeillio gyda phentref yn Llydaw, yn gadael tanwariant o £1000. CYTUNWYD i drosglwyddo'r arian i brosiectau sylweddol
 - roedd y Cyngor wedi clustnodi £2000 ar gyfer y prosiect Paneli Gwybodaeth, ond derbyniwyd grantiau a rhoddion sylweddol ac nid oedd angen i'r Cyngor ddefnyddio'r arian hwn. Cost terfynol y prosiect oedd £7,125. CYTUNWYD i drosglwyddo'r arian a arbedwyd (£2000) i brosiectau sylweddol
3. Cytunwyd i anfon llythyr ymrwymiad at Luned Fôn yr Archwilydd Mewnol.
4. Fe fonitryd y Gwariant tebygol erbyn diwedd Mawr 2020 yn erbyn Cyllideb 2019-20 a chafwyd ein bod yn agor iawn i'n lle oni bai am y tan wariant a eglurwyd uchod (Paneli /Gefeillio / Taliadau i Gynghorwyr)
5. Materion y/a thaliadau'r paneli: cytunwyd i wneud y cais am y grant gan Barc Cenedlaethol Eryri ac i dalu Mel Parry am ei waith yn creu'r paneli ac HG Web Designs am y wefan. Disgwylir biliau am ddylunio'r map ac am y testun a'r cyfieithiad - i'w talu allan o'r grant; trafodir hyn yn is-bwyllgor cyllid Chwefror (ac yn y Cyngor llawn fydd yn dilyn).
6. Cynnydd yng nghynlluniau gwariant arbennig 2019-20:
 - Prosiect uwchraddio'r toiledau: derbyniwyd prisiau o'r diwedd ar gyfer y gwaith. Ond ni fu cyfle i wneud cais am grant pwrpasol. Bwriedir gwneud hyn

pan ddaw cyfle. Yn y cyfamser, fe fydd y Cyngor yn parhau i gynilo arian ar gyfer y prosiect hwn.

Cytunwyd ymhellach i geisio cael mesurydd dŵr er mwyn gwneud arbedion (Alwyn E Jones a LP)

- Prosiect Mae Parcio: derbyniwyd neges trwy'r Cynghorydd Sir fod Adran y Priffyrdd yn bwrw ymlaen trwy wneud astudiaeth o'r tir cyn dylunio'r safle. Cytunwyd i barhau i gynilo arian tuag at y prosiect hwn
- Prosiect llain bob tywydd cymunedol: mae'r ceisiadau grant yn parhau gan y grŵp cymunedol. Cytunwyd i barhau i gynilo arian tuag at y prosiect hwn
- Prosiect Byrddau Gwybodaeth – wedi ei gwblhau
- Cyfeillio – nid yw'r cynllun yn mynd yn ei flaen. Cytunwyd i roi'r arian a neilltuwyd tuag at y Prosiectau tymor hir eraill.

7. Adolygwyd y Rheoliadau Ariannol.

8. Adolygwyd yr asesiad o risgiau ariannol.

9. Adolygwyd yr Yswiriant ar ôl ychwanegu Paneli at yr Asedau; bydd unrhyw newid yn ymddangos yn y taliad nesaf ym Mehefin.

10. Adolygwyd y cyflogau a chytunwyd i ddilyn trefn NALC os bydd codiad yn y cyflogau. Cytunwyd yn y cyfamser i ychwanegu 3% yng Nghyllideb 2020-2021

11. Gosodwyd y Gyllideb ar gyfer 2020-21. Oherwydd

- fod y Cyngor yn gwario'n fwy nag y mae'n ei dderbyn,
- yr angen i gynilo ar gyfer y prosiectau sylweddol sydd ar y gweill ac a fydd o fudd i drigolion cymuned Llanuwchllyn,
- ❖ cytunwyd ar gyllideb sy'n codi lefel y Praesept o fil o bunnoedd,
- ❖ cytunwyd i godi'r Praesept yn flynyddol hyd nes ei fod yn cyrraedd swm y Gyllideb

12. Argymhelliad lefel y Praesept i gyfarfod y Cyngor yn **lonawr 2020 yw £11,000.**